CEFNOGI GWAITH Y MENTRAU IAITH

PECYN AELODAETH

Mentrau Iaith Cymru

CYSYLLTU

post@mentrauiaith.cymru

www.mentrauiaith.cymru

01492 643401

t: @mentrauiaith

f: mentrauiaithcymru

Arweinydd Tîm

Iwan Hywel
iwanhywel@mentrauiaith.cymru

Swyddogion Datblygu

Heledd ap Gwynfor
heledd@mentrauiaith.cymru

Marged Rhys
marged@mentrauiaith.cymru

Rheolwr Prosiect Cymraeg Byd Busnes
Llywelyn Rhys

Beth yw Mentrau Iaith Cymru?

Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru drwy:

- gynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth
- gynnal rhwydweithiau cenedlaethol/rhanbarthol
- drefnu hyfforddiant, seminarau a chynadleddau
- gydlynu gweithgarwch marchnata a chyfathrebu
- a mwy...

ADEILADWAITH MENTRAU IAITH CYMRU

Bwrdd Rheoli (Cenedlaethol)

Cwrdd yn chwarterol

Cynrychiolaeth o bob Menter Iaith sy'n aelodau o MIC (pob menter yn cael anfon dau gynrychiolydd ac enwebu un ohonynt i fod yn un o Gyfarwyddwyr MIC, y prif swyddog fel arfer). Gwahoddir pob prif swyddog i'r cyfarfodydd a chroesewir cynrychiolaeth aelod o fwrdd rheoli pob Menter hefyd. Mae'r Pwyllgor Rheoli'n ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd a Thrysorydd sy'n gweithredu am ddwy flynedd i arwain y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol.

Pwyllgor Gweithredol

Cwrdd yn fisol

Gwneud y gwaith o reoli MIC o ddydd i ddydd, cynrychioli MIC mewn digwyddiadau cenedlaethol, yn cyfweld ac apwyntio staff newydd. Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd a 3 aelod sydd wedi eu hethol i'r Pwyllgor Gweithredol gan y rhanbarthau (2 o bob rhanbarth). Mae'r Bwrdd Rheoli yn ethol y swyddogion o'r 6 yma bob dwy flynedd, sef yr un swyddogion â'r Bwrdd Rheoli. Bydd yr Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

Pwyllgor Rhanbarthol

Cwrdd yn chwarterol

Cyfarfodydd rhanbarthol (Gogledd, De Orllewin a'r De Ddwyrain) sy'n gyfle i drafod pwyntiau rhanbarthol a chenedlaethol fydd yn cael eu bwydo nôl i'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r pwyllgorau rhanbarthol yn gwahodd Prif Swyddog o bob Menter Iaith yn y rhanbarth gan ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Yr aelodau yma sy'n cynrychioli'r rhanbarth ar y Pwyllgor Gweithredol. Bydd Is-gadeirydd yn cael ei ethol bob dwy flynedd a'r Is-gadeirydd yn camu i sedd y Cadeirydd wedi dwy flynedd.

Staff MIC

Gweithredu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Rheoli a'r Pwyllgor Gweithredol, cynnig cefnogaeth i rwydwaith y Mentrau Iaith.

SUT ALL MIC EICH HELPU CHI?

Rydym yn eich helpu chi drwy:

- Gasglu a rhannu gwybodaeth am grantiau a chodi arian
- Greu cyfleoedd hyfforddiant defnyddiol a pherthnasol
- Hwyluso cydweithio gyda phartneriaid cenedlaethol
- Hwyluso cyfathrebu cenedlaethol o fewn y rhwydwaith a rhannu arfer dda
- Mynychu cynadleddau a chyfarfodydd perthnasol ar eich rhan
- Dosbarthu newyddion perthnasol a gwybodaeth ddefnyddiol
- Gynnig cymorth yn dylanwadu ar y Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol
- Gynnig cymorth ar bolisi ac adnoddau dynol
- Bwrcasu adnoddau ar y cyd
- Gynnig cymorth recriwtio
- Gynnal a chynyddu delwedd genedlaethol a chynnig cyngor marchnata
- **Ymateb i'ch anghenion chi**

SUT Y GALLWCH CHI EIN HELPU NI?

Er mwyn gallu cynnig y gefnogaeth orau i rwydwaith y Mentrau Iaith a sicrhau bod ein gwaith a gwasanaethau mor berthnasol ac effeithiol ag sy'n bosib gofynnwn i chi:

- rannu barn a'ch anghenion a sicrhau mewnbwn eich staff a gwirfoddolwyr i'n gwaith
- gyfathrebu'n agored, amserol a rheolaidd gyda ni
- rannu eich llwyddiannau, diweddariadau, newyddion a syniadau gyda ni
- sicrhau cynrychiolaeth yn ein cyfarfodydd a'n digwyddiadau
- dalu'n brydlon yn dilyn derbyn anfoneb swyddogol

CALENDR MIC 2017-18

Dyddiadau arfaethedig

Mai 22 - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

Mehefin (wythnos yn dechrau) 12fed - Cyfarfodydd Prif Swyddogion Rhanbarthol

Mehefin 21 - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

Mehefin 27 - Cyfarfod Cenedlaethol MIC

Gorffennaf (wythnos yn dechrau) 10 - Cyfarfodydd Swyddogion Maes Rhanbarthol

Medi 7 - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

Medi (wythnos yn dechrau) 11 - Cyfarfodydd Prif Swyddogion Rhanbarthol

Medi 28 - Cyfarfod Cenedlaethol MIC a Chyfarfod Blynyddol

Hydref (wythnos yn dechrau) 9 - Cyfarfodydd Swyddogion Maes Rhanbarthol

Hydref (wythnos yn dechrau) 23 - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

Tachwedd 8 - Digwyddiad Cenedlaethol i holl staff a gwirfoddolwyr

Tachwedd (wythnos yn dechrau) 13 - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

Rhagfyr (wythnos yn dechrau) 4 - Cyfarfodydd Prif Swyddogion Rhanbarthol

Rhagfyr (wythnos dechrau) 11 - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

Rhagfyr 14 - Cyfarfod Cenedlaethol MIC

Ionawr (dyddiad i'w bennu) - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

Chwefror (dyddiad i'w bennu) - Cyfarfodydd Swyddogion Maes Rhanbarthol

Chwefror (dyddiad i'w bennu) - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

Chwefror (dyddiad i'w bennu) - Cynhadledd MIC (Cyfarfod Cenedlaethol MIC)

Mawrth (dyddiad i'w bennu) - Cyfarfodydd Prif Swyddogion Rhanbarthol

Mawrth (dyddiad i'w bennu) - Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol

EIN BLAENORIAETHAU

MARC ANSAWDD PQASSO

Prif flaenoriaeth MIC eleni yw gweithio tuag at gael Marc Ansawdd PQASSO.
Bydd MIC hefyd yn cefnogi'r mentrau (ac eithrio'r rhai sydd o dan lywodraeth leol) i weithio tuag at ennill marc ansawdd PQASSO gyda tharged i 8 fod yn barod ar gyfer asesiad allanol erbyn Mawrth 2018 a'r gweddill i gwblhau o fewn blwyddyn i hynny.

MARCHNATA

Bydd MIC yn creu a datblygu Grŵp Marchnata gyda'r nod o weithio gydag aelod o dîm marchnata'r Gymraeg o Lywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i flaengynllunio ymgyrchoedd marchnata'r mentrau dros y flwyddyn.

Bydd MIC yn anelu at godi ymwybyddiaeth o waith y Mentrau Iaith drwy ddefnydd o'r logo newydd a datblygu cyfres o fideos 'Beth yw Menter Iaith?' gyda phresenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol.

Bydd pwyslais hefyd ar recriwtio gwirfoddolwyr i berchnogi'r iaith drwy gefnogi gwaith y Mentrau.

MAGI ANN

Yn datblygu o lwyddiant apiau Magi Ann yn rhanbarth y Gogledd bydd MIC yn sicrhau bod y cymeriad yn troi'n 'seren' y Mentrau Iaith ar gyfer blynyddoedd cynnar ac yn cael ei defnyddio gan y mentrau'n genedlaethol.

EIN BLAENORIAETHAU

HYFFORDDIANT

Bydd MIC yn edrych i ddatblygu matrics hyfforddiant ar gyfer staff y mentrau iaith gyda system achredu cymwysterau priodol.

CYFARFODYDD A CHYNADLEDDAU

Rydym eisoes yn gweld pwysigrwydd i holl staff y mentrau, o brif swyddogion i wirfoddolwyr, allu ymgysylltu gyda'i gilydd a rhannu arfer dda.

Bydd MIC yn trefnu 4 cyfarfod cenedlaethol, 3 cyfarfod swyddogion maes rhanbarthol, cynhadledd i brif swyddogion a chadeiryddion ac un diwrnod mawreddog i holl staff a gwirfoddolwyr y mentrau er mwyn rhannu syniadau a datblygu sgiliau gyda'n gilydd.

DYRANNU CYNULLEIDFA

Byddwn yn gweithio gyda'r mentrau'n genedlaethol, a mudiadau eraill, i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl mewn pob cam o fywyd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau gan ddatblygu ar waith dyrannu cynulleidfa.

PARTNERIAETH

Byddwn yn parhau i gryfhau'r berthynas gyda phartneriaid (Dysgu Cymraeg, Cymraeg i Blant ac eraill) drwy weithredu ar femorandwm cydweithio.

Bydd MIC hefyd yn cefnogi mudiadau sy'n annog y Gymraeg gyda phresenoldeb mewn digwyddiadau ac ar bwyllgorau cenedlaethol.

ADNODDAU CENEDLAETHOL

Mae MIC wedi buddsoddi mewn adnoddau fydd o ddefnydd i'r holl fentrau yn eu digwyddiadau. Cysylltwch gyda Heledd ap Gwynfor er mwyn eu benthyg ar heledd@mentrauiaith.cymru

- Siwtiau Magi Ann x2
- Sgriniau x2
- Bwrdd arddangos
- Set Disgo Distaw
- Map y Mentrau x2
- Bwth Ffoto x2

CYSYLLTIADAU'R MENTRAU

Hunaniaith - Menter Iaith Gwynedd	01286 679452
Menter Iaith Abertawe	01792 460906
Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy	01495 755861
Menter Bro Dinefwr	01558 825336
Menter Bro Ogwr	01656 732200
Menter Iaith Bro Morgannwg	02920 689888
Menter Brycheiniog a Maesyfed	07776296267
Menter Caerdydd	02920 689888
Menter Iaith Casnewydd	01633 432101
Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot	01639 763819
Cered - Menter Iaith Ceredigion	01545 572350
Menter Iaith Conwy	01492 642357
Menter Cwm Gwendraeth Elli	01554 755994
Menter Gorllewin Sir Gâr	01239 712934
Menter Iaith Maldwyn	01686 610010
Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful	01685 722176
Menter Iaith Môn	01248 725700
Menter Iaith Rhondda Cynon Taf	01443 407570
Menter Iaith Sir Benfro	01239 831129
Menter Iaith Sir Caerffili	01443 820913
Menter Iaith Sir Ddinbych	01745 812822
Menter Iaith Fflint a Wrecsam	01352 744040

MENTRAU IAITH